

CYPWDN

Cylchlythyr Chwarterol

GWEITHIO GYDA'N GILYDD I WELLA CANLYNIADAU I BLANT A PHOBL IFANC SY'N BYW GYDA DIABETES

YN Y RHIFYN HWN

- Croeso gan y Rhwydwaith
- Arweinydd Clinigol Newydd
- Rheolwr Rhwydwaith Newydd
- Diweddariadau Tîm
- Ymchwil ac Arloesi
- Addysg a Hyfforddiant
- Gwobrau a Chydnabyddiaeth
- Straeon Teuluol a Chymunedol
- Stori Claf: Taith Luc



Croeso

Croeso i rifyn diweddaraf Cylchlythyr Chwarterol Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc.

Wrth i ni barhau i gydweithio ar draws ein rhwydwaith, mae'r cylchlythyr hwn yn cynnig y cyfle i ddathlu llwyddiannau, rhannu gwersi a ddysgwyd, tynnu sylw at arferion arloesol, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb am ddatblygiadau ym maes gofal diabetes pediatriig.

Dros y misoedd diwethaf, mae timau ar draws y rhwydwaith wedi dangos ymrwymiad eithriadol i ddarparu gofal o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. O welliannau i wasanaethau a gweithgarwch archwilio, hyd at addysg, datblygiadau technolegol a phrosiectau cydweithredol, mae llawer i fod yn falch ohono a digon i ysbrydoli pob un ohonom.

Yn y rhifyn hwn, fe welwch ddiweddariadau o bob rhan o'n rhwydwaith a straeon sy'n amlygu ymroddiad ac arbenigedd ein timau amlddisgyblaethol.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu cynnwys ac sy'n parhau i gefnogi gweledigaeth a rennir y rhwydwaith o wella canlyniadau a phrofiadau i blant a phobl ifanc sy'n byw gyda diabetes. Eich brwdfrydedd, eich cydweithrediad a'ch ymrwymiad parhaus sy'n gwneud y rhwydwaith hwn mor werthfawr.

Rydym yn gobeithio y bydd y cylchlythyr hwn yn addysgiadol, yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol i chi yn eich ymarfer. Rydym yn eich annog i barhau i rannu eich llwyddiannau, eich syniadau a'ch profiadau ar gyfer rhifynnau'r dyfodol.



CROESO & CHYFLWYNIADAU

CROESAWU EIN HARWEINYDD CLINIGOL NEWYDD:- DR SIMON FOUNTAIN-POLLEY

Rydym wrth ein bodd yn croesawu Dr Simon Fountain-Polley fel Arweinydd Clinigol newydd y Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc.



Mae Simon yn dod â 18 mlynedd o brofiad fel Pediatregydd Ymgynghorol gydag ef, gan weithio ledled gorllewin Cymru. Wedi'i leoli yng Nghaerfyrddin, mae ei ymarfer clinigol yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau ochr yn ochr â gofal diabetes, gan gynnwys gwaith ward pediatreg aciwt, clinig diddordeb arbennig rheumatoleg, clinigau pediatreg cyffredinol, a'r gwasanaeth hypercholesterolaemia teuluol.

Mae ei ymrwymiad i ofal cleifion yn ei arwain ar draws y rhanbarth, gyda chlinigau yn Aberystwyth, Hwlfordd, Aberdaugleddau a Dinbych-y-pysgod—rhywbeth, fel y mae'n nodi, sydd bob amser yn well pan fydd tywydd Cymru yn braf.

Fel Arweinydd Clinigol, mae Simon yn awyddus i arwain y rhwydwaith i gam nesaf ei ddatblygiad.. Mae'n arbennig o angerddol am gryfhau sut rydym yn cydweithio i ymdopi â'r heriau o ddarparu gofal diabetes ymatebol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i blant a phobl ifanc. Yn ganolog i'r weledigaeth hon mae ffocws o'r newydd ar rannu arfer gorau ar draws ein hunedau yng Nghymru, yn ogystal â dysgu gan gydweithwyr yn y rhwydwaith cenedlaethol ehangach. Mae Simon hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd cyd-fynd â nodau'r Cynllun Diabetes Cenedlaethol, gan sicrhau bod popeth a wnawn yn cefnogi canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

UO dan ei arweinyddiaeth, bydd y rhwydwaith yn adeiladu strwythurau cryfach a llywodraethu cliriach, gan greu dull mwy cydlynol ac effeithiol o ddarparu gwasanaethau. Un flaenoriaeth allweddol wrth symud ymlaen fydd taflu goleuni ar yr heriau y mae clinigwyr yn eu hwynebu, gan sicrhau bod y rhain yn cael eu mynegi a'u deall yn glir. Drwy wneud hynny, mae Simon yn gobeithio y gall y rhwydwaith chwarae rhan bwysig wrth ddylanwadu ar sut mae Llywodraeth Cymru a byrddau iechyd yn cefnogi datblygiad parhaus gwasanaethau diabetes. Rydym yn gyffrous am y cyfeiriad y bydd y rhwydwaith yn ei gymryd o dan arweinyddiaeth Simon ac yn edrych ymlaen at gydweithio i barhau i wella gofal a chanlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n byw gyda diabetes ledled Cymru.

Ymunwch â ni i roi croeso cynnes i Simon i'w rôl newydd.

Croeso Simon.

CROESAWU NECIA JONES: RHEOLWR RHWYDWAITH DIABETES PLANT A PHOBL IFANC

Rydym yn falch o groesawu Necia Jones i'w rôl newydd fel Rheolwr Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc.

Mae Necia yn dod â dros 15 mlynedd o brofiad yn y GIG, ar ôl dechrau ei gyrfa ym mis Medi 2009. Drwy gydol y cyfnod hwn, mae hi wedi datblygu set gref ac amrywiol o sgiliau, gan gyfuno arbenigedd gweithredol ag angerdd dros wella gofal a chanlyniadau i gleifion.



Cyn y rôl hon, gweithiodd Necia fel Rheolwr Cymorth Rhwydwaith ar gyfer y Rhwydwaith Diabetes o fewn adran Perfformiad a Gwella'r GIG, lle cafodd brofiad gwerthfawr ym meysydd rheoli risg, data a llywodraethu. Bydd ei gwybodaeth yn y meysydd hyn yn allweddol wrth gefnogi'r rhwydwaith i gryfhau goruchwyliaeth, gwella ansawdd y gwasanaeth, a hyrwyddo gwelliant parhaus.

Mae gan Necia hefyd gefndir cryf ym maes gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau bod anghenion a phrofiadau cleifion yn parhau i fod wrth wraidd y broses o ddarparu gwasanaethau. Mae hi wedi bod yn rhan o ddatblygu straeon digidol cleifion, gan ddefnyddio profiadau go iawn i helpu i lunio gwasanaethau a llywio gwelliannau ystyrlon ar draws systemau gofal iechyd.

Yn ei rôl newydd, mae Necia yn edrych ymlaen at weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws y rhwydwaith. Mae hi wedi ymrwymo i feithrin partneriaethau cryf a hyrwyddo cydweithio er mwyn cefnogi'r nod cyffredin o wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n byw gyda diabetes, yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr.

Ymunwch â ni i groesawu Necia i'r tîm

DADANSODDWR CYMORTH GWYBODAETH – RHIA WILLIAMS

Ymunodd Rhia â Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc Cymru (CYPWDN) fel Dadansoddwr Cymorth Gwybodaeth ym mis Mawrth 2023. Cafodd ei denu at y rôl trwy brofiad personol a phroffesiynol, ar ôl i'w merch gael diagnosis o ddiabetes Math 1 ym mis Mawrth 2016. Ar ôl tyfu i fyny ochr yn ochr â ffrind agos a oedd yn byw gyda'r cyflwr, datblygodd Rhia ddealltwriaeth gynnar o'i gymhlethdodau a'i heriau.


Ysbrydolwyd hi i gyfrannu at y rhwydwaith gan y cysylltiad personol hwn, ynghyd â'r gefnogaeth ragorol a gafodd ei theulu gan dîm diabetes BIPCTM—yn enwedig Geraldine Phillips adeg y diagnosis.

Roedd Rhia yn awyddus i chwarae rhan weithredol i gefnogi eraill wrth ddatblygu ei gwybodaeth a'i harbenigedd ymhellach mewn diabetes pediatrig.

Mae rôl Rhia yn cynnwys darparu cefnogaeth barhaus i holl ffrydiau gwaith a grwpiau'r Rhwydwaith, gan gynnwys trefnu cyfarfodydd, a chydlynu cofnodion a chamau gweithredu. Mae hi'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb blynyddol ar gyfer Grŵp Aberhonddu a'r Rhwydwaith ehangach. Yn ogystal, mae hi'n cynnal ac yn diweddarau Cofrestr Grŵp Aberhonddu, gan sicrhau cywirdeb data i gefnogi gweithgareddau adrodd, archwilio ac ymchwil.

Cyn ymuno â'r GIG, bu Rhia yn gweithio i Fanc Lloyds fel Dadansoddwr Cwynion am 13 mlynedd, gan weithio sifftiau nos 12 awr, ac arbenigo mewn cyfrifiadau iawndal PPI mawr, dadansoddi data, a gwneud penderfyniadau ynghylch cynhyrchion ariannol cymhleth.

Yn ddiweddarach ymunodd ag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), gan weithio ym maes Datblygu a Rheoli Gwasanaethau ac ar y Ddesg Wasanaeth. Roedd ei rôl yn cynnwys gweithredu prosesau ITSM yn unol ag ITIL, cynnal cofrestrau risg, cefnogi mentrau gwella gwasanaethau, a darparu cymorth rheng flaen i ddefnyddwyr wrth gyfrannu at welliannau parhaus i wasanaethau.



CYD-GYNHYRCHU GWELLIANNAU GWASANAETH GYDA THEULUOEDD – DR JOHN CONNOLLY – UWCH SEICOLEGYDD CLINIGOL A SEICOLEGYDD IECHYD

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Phrifysgol Bangor wedi bod yn cydweithio i archwilio sut y gall ymchwil weithredu gyfranogol (PAR) helpu i wella profiadau plant a theuluoedd ar adeg y diagnosis.

Mae PAR yn fethodoleg ymchwil sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol yn weithredol fel cyd-ymchwilwyr, yn hytrach na'u trin fel pynciau astudio.

Yn y prosiect hwn, daeth rhieni a chlinigwyr ynghyd i rannu eu profiadau o'r daith ddiagnostig ar gyfer diabetes Math 1.

Cynhaliwyd grwpiau ffocws ar wahân ac yna ar y cyd, gyda chyfranogwyr yn helpu i lunio'r dadansoddiad a chyd-ddatblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella sut mae diagnosis yn cael ei gyfleu a'i gefnogi. Cynhyrchodd y gwaith ganfyddiadau a oedd yn ystyrlon yn glinigol ac yn seiliedig ar waith ymarferol.

Roedd y themâu'n cynnwys effaith emosiynol diagnosis ar deuluoedd, y pwysau systemig ar glinigwyr, rôl gwybodaeth gynnar, a'r amodau sy'n helpu teuluoedd i ddechrau addasu.

Rhoddodd y sesiynau myfyriol ar y cyd ofod cyffredin i rieni a gweithwyr proffesiynol wneud synnwyr o'r profiadau hyn gyda'i gilydd, ac i nodi newidiadau a fyddai'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn ymarferol.

Cyhoeddwyd yr astudiaeth yn ddiweddar yn Psychology & Health (Shaw, Connolly, a Piggin, 2025: A participatory-action research exploration of parent and clinician experiences of type-1 diabetes diagnosis) a chafodd ei chyflwyno mewn cynhadledd genedlaethol.

Yn dilyn y croeso cadarnhaol i'r gwaith hwn, mae'r dull bellach yn cael ei efelychu o fewn y gwasanaeth epilepsi pediatrig arbenigol yn Ysbyty Gwynedd, gan archwilio profiadau rhieni a chlinigwyr o'r daith ddiagnostig epilepsi gan ddefnyddio'r un fethodoleg PAR.

Mae'r cydweithrediad hwn yn dangos beth sy'n bosibl pan fydd gwasanaethau'r GIG a phrifysgolion yn cydweithio â theuluoedd i lunio ymarfer o'r tu mewn.

Gobeithiwn y gallai fod o ddiddordeb i rwydweithiau eraill sy'n ystyried dulliau tebyg

PROFI YN ERBYN TLODI NRO®: GWELLA MYNEDIAD AT OFAL DIABETES YNG NGORLLEWIN CYMRU *DR SIMON FOUNTAIN-POLLEY – CLINICAL LEAD*

Mae astudiaeth achos ddiweddar gan NRO Poverty Proofing® yn tynnu sylw at y ffordd y mae'r Tîm Diabetes Pediatrig ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn gweithio i leihau anghydraddoldebau a gwella mynediad at ofal i blant a phobl ifanc â diabetes ledled Gorllewin Cymru. Dan arweiniad y Meddyg Ymgynghorol Pediatrig Dr Simon Fountain-Polley, mae'r gwasanaeth yn cefnogi dros 200 o blant ar draws ardal wledig helaeth, lle gall anawsterau teithio, allgáu digidol a phwysau ariannol effeithio ar fynediad at ofal iechyd.

Drwy raglen Poverty Proofing®, a gyflwynir gan Children North East, archwiliodd y tîm sut y gall tlodi greu rhwystrau cudd i ofal diabetes. Gwnaeth gweithdai annog staff i fyfyrio ar ragdybiaethau ynghylch amgylchiadau teuluoedd ac i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r heriau y mae llawer yn eu hwynebu, gan gynnwys costau trafnidiaeth, mynediad at dechnoleg, a'r baich ariannol ychwanegol o reoli diabetes Math 1.

O ganlyniad, nododd y tîm nifer o gamau gweithredu ymarferol i wella tegwch. Mae clinigau cymunedol wedi'u sefydlu mewn lleoliadau fel Aberdaugleddau a Dinbych-y-pysgod, gan leihau'r angen i rai teuluoedd deithio tra'n cynnal opsiynau gofal hyblyg. Mae'r gwasanaeth hefyd yn datblygu pecyn gofal ar gyfer diagnosis sy'n cynnwys cwestiynau arferol ynghylch mynediad digidol ac anghenion cymorth. Gan gydnabod bod monitro glwcos yn barhaus yn dibynnu ar dechnoleg ffonau clyfar, mae'r tîm wedi ymuno â mudiad elusennol sy'n darparu ffonau clyfar wedi'u hadnewyddu i deuluoedd sy'n gymwys.

Mae'r fenter wedi atgyfnerthu pwysigrwydd gofyn i deuluoedd yn rheolaidd am y rhwystrau y gallent eu hwynebu, ac o ymgorffori ymwybyddiaeth o dlodi wrth gynllunio gwasanaethau. Drwy gymryd camau bach ond ystyrlon, mae'r tîm yn helpu i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cael gafael ar ofal diabetes o ansawdd uchel, waeth beth fo'u hamgylchiadau neu ble maen nhw'n byw.

Addysg & Ymwybyddiaeth

**DIGWYDDIAD AMSER WEDI'I NEILLTUO AR GYFER DYSGU GAN
FEDDYGON TEULU CTM**

AIMEE GRIMWOOD PRIF NYRS ARBENIGOL DIABETES PEDIATRIG

Digwyddiad Amser wedi'i Neilltuo ar gyfer Dysgu gan Feddygon Teulu CTM–
Aimee Grimwood Prif Nyrs Arbenigol Diabetes Pediatrig.

Ar 21 Mai 2026, rhoddodd Lisa Daniels, Ambika Shetty ac Aimee Grimwood gyflwyniad ar Ddiagnosis Cynnar o Ddiabetes mewn Plant mewn digwyddiad Amser wedi'i Neilltuo ar gyfer Dysgu gan Feddygon Teulu Cwm Taf Morgannwg.

Nododd y sesiwn ddechrau'r hyn a obeithir a fydd yn gydweithrediad rheolaidd rhwng y Tîm Amlddisgyblaethol Diabetes Pediatrig a chydweithwyr Gofal Sylfaenol, gan gefnogi dysgu ar y cyd, ymwybyddiaeth gynyddol, ac adnabod anghenion hyfforddi yn y dyfodol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan bwysig o ymdrechion parhaus i leihau cyfraddau Cetoasidosis Diabetig (DKA) adeg diagnosis ar draws CTM trwy gydnabod arwyddion a symptomau Diabetes Math 1 yn gynharach.

Roedd yr adborth gan y mynychwyr yn hynod gadarnhaol, gydag un cynrychiolydd yn gwneud y sylw canlynol: "Sesiwn bleserus iawn. Rhyngweithiol, diddorol ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr, diolch!"

Hoffai Tîm Amlddisgyblaethol Diabetes Pediatrig CTM ddiolch i Lisa ac Ambika am eu cefnogaeth wrth drefnu a chyflwyno'r digwyddiad llwyddiannus hwn.

DIGWYDDIAD SYMUD I FLWYDDYN 7 SEREN MWYNHAODD TÎM DIABETES PEDIATRIG CTM

Mwynhaodd Tîm Diabetes Pediatrig CTM a phlant Blwyddyn 6 â Diabetes Math 1 ddiwrnod gwych yn nigwyddiad Symud i Flwyddyn 7 SEREN eleni, a gynhaliwyd ym Mharc Infinity Caerdydd ar 12 Mehefin 2026.

Trefnwyd a chyflwynwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â DUK Together Type 1, a fu'n garedig iawn i noddi'r diwrnod.

Tra bod y plant yn mwynhau'r cyfleusterau trampolîn a'r cyfleoedd i gysylltu â chymheiriaid, cymerodd y rhieni a'r gofalwyr ran mewn sesiwn cymorth ac addysg bwrpasol a oedd yn ymdrin â phynciau gan gynnwys:

- Cysylltu â rhieni a gofalwyr eraill
- Gofalu am eich llesiant eich hun
- Rhianta person ifanc â diabetes
- Deall ymennydd yr arddegau
- Delwedd y corff a'r berthynas â bwyd
- Cydberthnasau teuluol

Roedd yr adborth gan y mynychwyr yn hynod gadarnhaol.

Mae tîm CTM yn gobeithio parhau i gyflwyno'r digwyddiad Symud i Flwyddyn 7 ar sail ganolog, gan ddod â theuluoedd o bob uned ynghyd yn y blynyddoedd i ddod.

CYFATHREBU AR Y CYFRYNGAU CYMDEITHASOL YNGHYLCH DIABETES PEDIATRIG BIPCAF AR GYFER WYTHNOS DIABETES 2026

Mae Tîm Diabetes Pediatrig CTM wedi bod yn gweithio'n agos gyda Thîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd i godi proffil diabetes pediatrig ar draws y sefydliad a'r gymuned ehangach.

Fel rhan o Wythnos Diabetes (8–14 Mehefin 2026), cymerodd y tîm ran mewn ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol a oedd yn canolbwyntio ar y thema 'Dileu Stigma'.

Drwy fideo 'galwad i weithredu', gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i gyflwyno cwestiynau am ddiabetes, yna ymatebodd y tîm i'r cwestiynau hyn mewn nodwedd cyfryngau cymdeithasol bwrpasol a gynlluniwyd i addysgu, ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth.

Cafodd yr ymgyrch groeso da iawn, gan greu ymgysylltiad cadarnhaol a chael ei rhannu'n eang ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, a helpu i ymestyn cyrhaeddiad negeseuon allweddol ymwybyddiaeth o ddiabetes o fewn y gymuned.

Gweler y ddolen i'r fideo YouTube ar waelod y dudalen hon.

Yn dod yn fuan...

Ar hyn o bryd mae'r tîm yn cwblhau fideo Ymwybyddiaeth o Symptomau Diabetes i'w ryddhau ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol BIPCTM.

Gan gynnwys cyfraniadau gan aelodau tîm amlddisgyblaethol, plant, pobl ifanc a rhieni, nod y fideo yw codi ymwybyddiaeth o arwyddion a symptomau Diabetes Math 1 a hyrwyddo diagnosis cynharach.

Mae'r fenter hon yn cefnogi ymdrechion parhaus i leihau nifer y plant a phobl ifanc sy'n cyflwyno symptomau Cetoasidosis Diabetig (DKA) adeg diagnosis, gan fynd i'r afael â phryderon ynghylch cyflwyno'n hwyr o fewn ardal CTM.

Cymuned ac Ysgolion

**YSGOL GYMRAEG BRYNSIERFEL SUPPORTS
DIABETES UK DURING DIABETES AWARENESS WEEK
*MRS ZOE JERMIN-JONES***

Yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Diabetes, daeth dysgwyr, teuluoedd a staff yn Ysgol Gymraeg Brynsierfel ynghyd i godi ymwybyddiaeth o ddiabetes, herio stigma a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw wrth gefnogi Diabetes UK.



Plant o Ysgol Gymraeg Brynsierfel

Dechreuodd y fenter gyda thrafodaeth rhwng dysgwr o Flwyddyn 5 a Phennaeth yr Ysgol, Mrs Zoë Jermin-Jones, sydd ill dau yn byw gyda diabetes, ynghylch ffyrdd o gefnogi ymgyrch “Dileu Stigma” yr elusen. Tyfodd eu syniad yn gyflym yn ddigwyddiad cymunedol ysgol gyfan.

Cymerodd y dysgwyr ran mewn taith gerdded nodedig a oedd wedi'i theilwra i'w hoedran. Cwblhaodd disgyblion Meithrin a Derbyn sawl lap o amgylch maes chwarae'r ysgol, mwynhaodd Blynnyddoedd 1-3 daith gerdded gymunedol 2km, tra bod Blynnyddoedd 4-6 wedi herio eu hunain gyda llwybr o bron i 8km drwy'r ardal leol.

Drwy gydol yr wythnos, cawsant gyfle hefyd i ddysgu mwy am ddiabetes a phwysigrwydd deall a chefnogi'r rhai sy'n byw gyda'r cyflwr.

I gloi'r wythnos, gwahoddwyd teuluoedd i gymryd rhan mewn Parkrun i Bobl Iau yn People's Park, Llanelli. Daeth staff, disgyblion a rhieni ynghyd i redeg, loncian neu gerdded y cwrs 2km, gan ddathlu gweithgarwch corfforol ac ysbryd cymunedol.

**ISLA ROSE-BRIGDEN , MAE HI YM
MLWYDDYN 5 AC MAE GANDDI
DDIABETES MATH 1. GWNAETH ISLA A
MINNAU FEDDWL AM Y SYNIAD O'R
TEITHIAU CERDDED NODDEDIG AC
YMUNO Â'R PARKRUN.**

Roedd y digwyddiadau'n adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i hyrwyddo iechyd a lles wrth annog dysgwyr i ddod yn ddinasyddion tosturiol a gwybodus. Yn bwysicaf oll, rhoddodd yr wythnos gyfle i godi ymwybyddiaeth o ddiabetes, herio camsyniadau a dangos cefnogaeth i'r miliynau o bobl yr effeithir arnynt gan y cyflwr.



Hoffai Ysgol Gymraeg Brynsierfel ddiolch i bob dysgwr, teulu a staff am eu brwdfrydedd, eu haelioni a'u cefnogaeth drwy gydol yr wythnos.

Diolch i Mrs Jermin-Jones ac Isla am eu gwaith caled yn hyrwyddo Wythnos Diabetes 2026.

GWOBR DATHLU RHAGORIAETH WAND

Yn flaenorol, gwnaeth y Rhwydwaith gynnwys erthygl newyddion gan Sara Crowley, yn tynnu sylw at lwyddiant digwyddiad SEREN Connect CTM, sef digwyddiad arloesol a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2025, a ddarparwyd yn ganolog. Dangosodd yr erthygl yr effaith gadarnhaol o ddod â phobl ifanc o bob cwr o'r Bwrdd Iechyd ynghyd ar gyfer addysg, cefnogaeth gan gymheiriaid, a phrofiadau a rennir.

Darllenwch y darn newyddion yma:

"Hwyl a Diabetes yn yr Un Frawddeg"

Yn dilyn llwyddiant y digwyddiad, cyflwynodd Jo Lloyd-Jones (PDSN CTM) y prosiect yng Nghynhadledd Academi Nyrsio Cymru mewn Diabetes (WAND) ym mis Hydref 2025, lle dyfarnwyd Gwobr Dathlu Rhagoriaeth iddi.

Gwnaeth y cyflwyniad arddangos digwyddiad canolog cyntaf CTM, a ddaeth â phobl ifanc o bob cwr o'r Bwrdd Iechyd ynghyd yng Ngwesty'r Marriott yng Nghaerdydd ar gyfer addysg SEREN Connect, wedi'i ddilyn gan brynawn rhyngweithiol yn Escape Rooms Caerdydd.

Roedd y dull hwn yn nodi symudiad i ffwrdd o ddarpariaeth yn seiliedig ar unedau yn CTM gan gyfuno addysg â phrofiad hwyliog a diddorol oddi ar y safle.

Roedd y tîm wrth eu bodd â llwyddiant y digwyddiad ac maen nhw'n hynod falch o Jo am dderbyn Gwobr Dathlu Rhagoriaeth WAND.



Jo Lloyd-Jones (CTM PDSN)

Diwrnod Hwyl i'r Teulu



Tîm Gwent yn Fferm Greenmeadow

DIWRNOD HWYL I'R TEULU – RHIAN EADES

PRIF DDIETEGYDD DIABETES PEDIATRIG

Ar 14 Mehefin 2026, llwyddodd Tîm Diabetes Plant Gwent yn BIPAB i gyflwyno Diwrnod Hwyl i'r Teulu yn Fferm Greenmeadow yng Nghwmbrân i blant a theuluoedd sy'n byw gyda Diabetes Math 1.

Nod y digwyddiad oedd darparu amgylchedd pleserus a chefnogol gan gynnig mynediad at wybodaeth a chefnogaeth gan gymheiriaid.

Daeth dros 45 o deuluoedd o bob cwr o'r bwrdd iechyd i'r digwyddiad.

Roedd gan y teuluoedd fynediad am ddim i'r fferm a oedd yn caniatáu i deuluoedd fwynhau diwrnod hamddenol, anffurfiol gyda'i gilydd.

Roedd y lleoliad yn cefnogi rhyngweithio cymdeithasol, gan helpu teuluoedd i gysylltu ag eraill a rhannu profiadau.

Roedd gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn bresennol i roi cyngor ac roedd rhai o gynrychiolwyr y cwmni pwmp inswlin a CGM hefyd yn bresennol a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r teuluoedd am y dechnoleg a'r cynhyrchion diweddaraf.

Roedd teuluoedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i gwrdd ag eraill, rhannu profiadau, ac adeiladu rhwydweithiau cefnogol fwyaf.

Ariannwyd y diwrnod gan Gronfa Elusennol Diabetes Plant Gwent, ynghyd â nawdd gan y cwmnïau a fynychodd (Medtronic, Insulet, Abbott a Dexcom).

Roedd y tîm wrth eu bodd yn gweld cymaint o deuluoedd yn dod at ei gilydd i fwynhau'r gweithgareddau, gweld anifeiliaid y fferm a chwrdd â phobl newydd. Roedd yn llwyddiant ysgubol!



Maen nhw'n gobeithio ei wneud yn ddigwyddiad blynyddol.

It sounds minor but seeing E's face when she had an experience of hearing others' alarms - it was the realisation that she's not alone.

"Thank you so much for organising this day"

It sounds minor but seeing E's face when she had an experience of hearing others' alarms - it was the realisation that she's not alone.

"Thank you to all the team for organising and all the helpful information we had"

Os hoffech chi gyfrannu at yr elusen i helpu gyda digwyddiadau yn y dyfodol, gellir gwneud hyn drwy'r ddolen ganlynol: Gwent Children's Diabetes Team F436

<https://www.justgiving.com/fundraising/Gwent-Childrens-Diabetes-Team>

Straeon Cleifion



STORI LUC – “ROEDD YR ARWYDDION RHYBUDD YNO ERS MISOEDD. DOEDD GENNYM NI DDIM SYNIAD PA MOR SÂL OEDD EIN MAB”

Ddwy flynedd yn ôl, cafodd Luc, 10 oed o Aberdâr, ddiagnosis o Ddiabetes Math 1 ar ôl mynd yn wael iawn gyda Chetoasidosis Diabetig (DKA) tra ar wyliau gyda'r teulu yn Kos.

Yn y misoedd yn arwain at y gwyliau, roedd Luc wedi profi sawl symptom cyffredin o Ddiabetes Math 1, gan gynnwys blinder, syched gormodol a cholli pwysau. Fel llawer o deuluoedd, meddyliodd y teulu bod y newidiadau hyn o ganlyniad i'r tywydd poeth, cynnydd mewn twf a phrysurddeb diwedd y flwyddyn ysgol.

Yn fuan ar ôl cyrraedd Gwlad Groeg, dirywiodd cyflwr Luc yn gyflym. Aeth yn ddryslyd, cafodd drafferth canolbwyntio a datblygodd anawsterau anadlu. Cafodd ei ruthro i'r ysbyty, lle gwnaeth y meddygon ddiagnosis o DKA difrifol. Roedd ei gyflwr mor ddifrifol fel bod angen ei drosglwyddo mewn awyren filwrol i uned gofal dwys arbenigol, gan adael aelodau'r teulu wedi'u gwahanu ar draws gwahanol ynysoedd yn ystod y profiad. Diolch byth, yn dilyn triniaeth, gwellodd Luc a dychwelodd adref bythefnos yn ddiweddarach, lle mae bellach yn cael ei gefnogi gan y Tîm Diabetes Pediatrig yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Nawr ym Mlwyddyn 7, mae Luc yn ffynnu, yn mwynhau pêl-droed a dysgu karate. "Wrth fyfyrion ar eu profiad, mae ei deulu'n cydnabod pa mor wahanol y gallai'r canlyniad fod wedi bod." Roedden ni daith tacsï arafach i ffwrdd o'i golli, a gwnaethon ni ddim sylwi ar yr arwyddion a ddangosodd ei gorff. Roedd yn gyfnod ofnadwy, ond gellid bod wedi'i osgoi."

Mae Luc a'i deulu yn angerddol am godi ymwybyddiaeth o arwyddion a symptomau Diabetes Math 1, gan obeithio y bydd mwy o ymwybyddiaeth yn helpu teuluoedd eraill i osgoi taith ddiagnosis debyg. Mae ei stori wedi cael ei rhannu'n eang ar draws BIPCTM a Wales Online, ac mae wedi denu diddordeb gan y BBC ar gyfer stori newyddion yn y dyfodol.

Darllenwch Stori Luc yma: CTM News:

<https://ctmuhb.nhs.wales/news/latest-news/the-signs-were-there-we-just-didnt-know>

Wales Online

<https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/the-warning-signs-were-months-33727893>

Gwerthfawrogiad



DIOLCH, DR DAVIDA HAWKES
CYN-ARWEINYDD CLINIGOL
CYPWDN
CYFRANIAD PARHAOL I OFAL
DIABETES PLANT

Hoffem ddiolch yn ddifffuant i Dr Davida Hawkes am ei hymroddiad a'i harweinyddiaeth yn ei rôl fel Arweinydd Clinigol Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc (CYP) wrth iddi drosglwyddo'r awenau i Dr Simon Fountain-Polley.

Drwy gydol ei hamser yn y rôl hon, mae Davida wedi darparu arweiniad clinigol amhrisiadwy ac arweinyddiaeth gref a thosturiol. Yn benodol, roedd ei chefnogaeth yn ystod pandemig COVID-19 yn allweddol wrth helpu'r rhwydwaith i lywio cyfnod eithriadol o heriol ac ansicr. Arweiniodd y pandemig at darfu sylweddol ar wasanaethau, ochr yn ochr â phwysau ychwanegol ar staff, cleifion a theuluoedd. Er gwaethaf yr heriau hyn, helpodd Davida i sicrhau parhad gofal a chefnogodd dimau i addasu i amgylchiadau a oedd yn newid yn gyflym gyda gwydnwch a phroffesiynoldeb.

Un o uchafbwyntiau allweddol ei chyfraniad fu ei gwaith ochr yn ochr â Jon Matthias, Cyn-reolwr y Rhwydwaith, ar fentrau cyfathrebu ar gyfer ysgolion, yn enwedig wrth godi ymwybyddiaeth o'r "4T" ar gyfer diabetes Math 1. Mae'r gwaith hwn wedi chwarae rhan bwysig wrth wella cydnabyddiaeth a dealltwriaeth gynnar o ddiabetes mewn lleoliadau addysgol, gan helpu i gefnogi canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

Mae ymrwymiad Davida i gydweithio a gwella gwasanaethau wedi gadael effaith gadarnhaol barhaol ar draws y rhwydwaith. Mae ei harbenigedd, ei mewnwelediad a'i hymroddiad wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gydweithwyr a phartneriaid fel ei gilydd.

Rydym yn ddiolchgar bod Davida yn parhau i gefnogi'r rhwydwaith wrth gyflawni ei rôl o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB).

Diolch i chi, Davida, am eich cyfraniad.



DIOLCH YN FAWR IAWN I LISA

ARWEINYDD ADDYSG DIABETES PEDIATRIG

Hoffem ddiolch o galon i Lisa Daniels am ei chyfraniad rhagorol wrth wasanaethu fel Rheolwr Rhwydwaith Dros Dro. Yn camu i'r rôl ar ôl i'r swydd fod yn wag am dros ddwy flynedd.

Daeth Lisa â sefydlogrwydd, cyfeiriad, a momentwm newydd i'r Rhwydwaith, gan sicrhau bod cynnydd yn parhau ar gyflymder.

Mae Lisa yn Nyrs Arbenigol Diabetes Pediatrig brofiadol iawn o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Ym mis Gorffennaf 2024, symudodd i rôl o fewn Perfformiad a Gwella fel Arweinydd Addysg Diabetes Pediatrig, gan ganolbwyntio ar ddatblygu a chyflwyno rhaglen SEREN.

Ochr yn ochr â'r cyfrifoldeb sylweddol hwn, gofynnwyd i Lisa ymgymryd â'r her ychwanegol o fod yn Rheolwr Rhwydwaith Dros Dro – tystiolaeth o'i harbenigedd, ei hymrwymiad a'i harweinyddiaeth. Yn ystod ei chyfnod yn y rôl dros dro, gweithiodd Lisa'n ddiflino i ddatblygu'r Rhwydwaith, gan gryfhau cydweithio, cynnal ffocws ar flaenoriaethau allweddol, a chefnogi timau ledled Cymru. Mae ei gallu i gydbwyso arweinyddiaeth strategol â'i rôl addysgol wedi bod yn amhrisiadwy, ac mae ei heffaith wedi cael ei chydabod yn eang a'i gwerthfawrogi'n fawr.

Er bod Lisa bellach yn camu'n ôl o swydd Rheolwr Dros Dro'r Rhwydwaith, rydym wrth ein bodd y bydd hi'n parhau i weithio'n agos gyda'r Rhwydwaith.

Bydd hi'n chwarae rhan barhaus yn cefnogi'r Llif Gwaith Pontio, ochr yn ochr â'i harweinyddiaeth barhaus ar addysg diabetes pediatrig a'r rhaglen SEREN.

Mae ymroddiad, proffesiynoldeb ac angerdd Lisa dros wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n byw gyda diabetes wedi gwneud gwahaniaeth parhaol.

Rydym yn hynod ddiolchgar am ei chyfraniad ac yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda hi yn y dyfodol.

HWYL FAWR I SARA CROWLEY FORMER TRANSITIONAL CARE CO-ORDINATOR

IGyda balchder mawr, edmygedd, a thristwch yr ydym yn rhannu bod Sara yn gadael ei rôl fel Cydlynnydd Gofal Pontio ar ôl cael ei hethol yn Aelod o'r Senedd dros Blaid Cymru. Er y byddwn yn colli ei harweinyddiaeth a'i hymroddiad, rydym yn gwybod y bydd hi'n parhau i hyrwyddo plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw gyda diabetes ar lwyfan cenedlaethol.



Wedi cael diagnosis o ddiabetes Math 1 yn dair oed, gwnaeth profiad bywyd Sara lunio ei hangerdd dros wella gofal a sicrhau nad oes neb yn teimlo'n unig. Mae ei heffaith ledled Cymru wedi bod yn ddofn.

Agorodd y Diwrnod Rhwydwaith Diabetes Plant a Phobl Ifanc cyntaf yn 2016 a chwaraeodd ran allweddol wrth ymgorffori profiadau bywyd mewn cyfarfodydd rhwydwaith. Yn yr un flwyddyn, daeth yn Gydlynnydd Gofal Pontio gyda Grŵp Gweithredu Diabetes Cymru Gyfan, a ffynnodd yn y rôl honno.

Gwnaeth Sara helpu i lunio safonau pontio Cymru gyfan a chyd-ddatblygodd SEREN Connect, rhaglen arobryn sy'n cefnogi pobl ifanc sy'n symud i wasanaethau oedolion. Wedi'i lansio yn 2019, derbyniodd gydnabyddiaeth genedlaethol yn ddiweddarach am arloesedd ac addysg. Cyflwynodd weithwyr ieuencid i dimau amlddisgyblaethol hefyd, sydd bellach yn rôl barhaol a gwerthfawr.

Estynnodd ei hymgyrch eirioli yn genedlaethol, gan roi tystiolaeth yn San Steffan a'r Senedd, a siarad mewn cynadleddau mawr. Yn ddiweddar cyfrannodd at raglenni a chynadleddau proffesiynol Diabetes UK, gan barhau i hyrwyddo lleisiau pobl ifanc.

Mae Sara yn gadael gwaddol o dosturi, arloesedd a newid parhaol. Mae ei gwaith wedi grymuso pobl ifanc ac wedi cryfhau gwasanaethau ledled Cymru. Er y byddwn yn ei cholli'n fawr, rydym yn hynod falch o'i phennod nesaf ac yn dymuno pob llwyddiant iddi.

Digwyddiadau i ddod

DIGWYDDIADAU AR GYFER 2026

- Cynhadledd BSPED – 8-10 Rhagfyr 2026, Bristol Beacon
- Fforwm y Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Rheoli Gordewdra ymhlith Plant – 24 Medi 2026, Watford
- Cyfarfod Grŵp Aberhonddu – 27 Tachwedd 2026, Gwesty'r Village Caerdydd
- Cynhadledd Genedlaethol Math 2 – 25 Tachwedd 2026
- Cynhadledd Diogelu – 22 Hydref 2026

Cysylltwch â'r Rhwydwaith

CYPWDN Manager – Necia Jones

necia.jones@wales.nhs.uk

CYPWDN Information Support Analyst – Rhia Williams

rhia.williams2@wales.nhs.uk

CYPWDN Chair – Simon Fountain-Polley

simon.fountain-polley@wales.nhs.uk

Paediatric Education Lead For Diabetes – Lisa Daniels

lisa.daniel@wales.nhs.uk

Gwefan y Rhwydwaith

<https://www.cypdiabetesnetwork.nhs.uk/wales>

Croeso I Gyfraniadau

Hoffech chi ymddangos yn y cylchlythyr nesaf?

Anfonwch eich straeon, eich cyflawniadau a'ch diweddariadau at Dîm y Rhwydwaith.